



ATHROFA **PADARN** SANT
ST **PADARN'S** INSTITUTE

Ffuriant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig Llawlyfr 2020-21



Gweledigaeth a Gwerthoedd Athrofa Padarn Sant

Gweledigaeth

Gwasanaethu cenhadaeth weddnewidiol Duw o gariad at Gymru drwy fod yn gymuned sy'n canolbwyntio ar ffurfiant a hyfforddiant wedi'u seilio ar genhadaeth i holl bobl Duw.

Gwerthoedd

Cymuned sydd:

- Yn edrych tuag allan
- Yn ysbrydol
- Yn dysgu
- Yn newid
- Yn ddewr

Cymuned sy'n ceisio gwasanaethu:

- Cymunedau lleol
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Pobl Gymraeg eu hiaith a Saesneg eu hiaith fel ei gilydd
- Holl ddaearyddiaeth Cymru
- Pobl o bob lliw a llun lle bynnag y maen nhw yn eu disgyblaeth a'u gweinidogaeth.

Cynnwys

Gweledigaeth a Gwerthoedd Athrofa Padarn Sant	2
Croeso!	5
Astudio Diwinyddiaeth	6
Cyfnodau Preswyl	6
Lleoliadau	7
Rôl y goruchwilydd a'r ymgeisydd	9
Rhagor o Brofiadau o Weinidogaeth	10
Canllawiau i'r ymgeiswyr ynghylch myfyrio	10
Cwestiynau i'ch helpu i fyfrio	10
Celloedd Ffurfiannol	10
Strwythur y cyfarfod	11
Nodyn ar gyfrinachedd	12
Adroddiadau ar Ffurfiant	12
Strwythur y cyfarfodydd	13
Adroddiadau i'r esgob	14
Adroddiadau arbennig	14
Cefnogaeth a chymorth bugeiliol	15
Cysylltiadau yn yr esgobaethau ynglŷn â chyfarwyddyd ysbrydol	15
Tiwtoriaid Athrofa Padarn Sant	16
Gwyliau	16
Rhestr Gyfeirio Flynyddol	17
Gorffennaf	17
Awst	17
Medi	17
Hydref	18
Tachwedd	18
Rhagfyr	18
Ionawr	18
Chwefror	18
Mawrth	18
Ebrill	18
Mai	18
Mehefin	18
Gwybodaeth ymarferol	19

Grantiau	19
Treuliau	19
Cymorth i'ch priod.....	19
Ffurflenni	21
.....	22
Adroddiad blynyddol ar leoliad a rhestr gyfeirio	22
.....	23
Adroddiad terfynol ar y lleoliad	23
Adroddiad y goruchwylydd:	23
.....	25
Adolygiad Blynyddol Cell Ffurfiannol	25
.....	26
Cytundeb Lleoliad Hyfforddi	26
1. Manylion Cyffredinol	26
2. Datblygiad ffurfiannol	26
Ffurflen Adborth Pregethu	28
Polisiâu a ble i'w cael	30
Polisi presenoldeb	30
Ffurflen absenoldeb o gyfnod preswyl	33
Cyfrinachedd o fewn Ffurfiant ar gyfer Gweinidogaeth Drwyddedig a Diwinyddiaeth ar Gyfer Bywyd	34
Cofnod Ffurfiant	Error! Bookmark not defined.

Croeso!

Ac yr ydym ni i gyd, heb orchudd ar ein hwyneb, yn edrych, fel mewn drych, ar ogoniant yr Arglwydd ac yn cael ein trawsffurfio o ogoniant i ogoniant, yn wir lun ohono ef. A gwaith yr Arglwydd, yr Ysbryd, yw hyn.

2 Corinthiaid 3:18

Croeso i'r llawlyfr hwn a fydd yn egluro'r gwahanol agweddau ar eich hyfforddiant a sut maent i gyd yn ffitio at ei gilydd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau unrhyw bryd mae croeso ichi gysylltu â Lyn Davies, cydlynnydd y cwrs, eich tiwtor neu finnau, Deon Hyfforddiant Cychwynnol Gweinidogion. Mae ein manylion cysylltu ni i gyd ar gael yng nghefn y llawlyfr hwn.

'Ffuriant' yw ein gair ni am baratoi ar gyfer y weinidogaeth, a hynny am fod hyn yn fwy na dysgu sgiliau yn unig ac yn golygu cael ein ffurfio i greu'r fersiwn gorau posibl ohonon ni'n hunain fel disgybl ac fel gweinidog. Fel y mae'r dyfyniad uchod o ail lythyr Paul at y Corinthiaid yn ein hatgoffa, ffurfio (neu drawsffurfio) yw gwaith yr Ysbryd. Nid yw tasgau neu aseiniadau ynddynt eu hunain yn gallu'n paratoi ni'n ddigonol ar gyfer gweinidogaeth, mae ffuriant yn golygu agor ein hunain i Dduw sy'n gweithio ynon ni a thrwy bobl eraill. Ein rôl ni felly yw eich annog i ddatblygu arferion twf gydol oes mewn gweddïo, dysgu diwinyddol a myfyrio ar eich arferion fel eich bod yn cael eich trwyddedu neu'ch ordeinio (yn llawn braw mae'n siŵr, ond yn llawn cyffro a hefyd...) yn barod ar gyfer cenhadaeth a gweinidogaeth yn eglwys Duw wedi cael eich herio a'ch annog i fod y person y mae Duw yn eich galw i fod.

Rydych yn ymuno â chymuned o bobl o'r un anian sydd am dyfu mewn ffydd a dewrder, a gobeithio y byddwch nid yn unig yn cael eich annog a'ch ysbrydoli gennym ni yn Athrofa Padarn Sant ond hefyd gan eich cydymgeiswyr. Yn ein profiad ni, byddwch yn gwneud ffrindiau yn Athrofa Padarn Sant a fydd yn eich cefnogi, nid dim ond yn ystod eich cyfnod o hyfforddiant ond hefyd drwy gydol eich gweinidogaeth. Rwy'n edrych ymlaen at rannu'r daith hon gyda chi.

Cofion cynnes,



Y Parch Ddr Manon Ceridwen James
Deon Hyfforddiant Cychwynnol Gweinidogion



Mae'r ffurfiant yn cynnwys pedwar maes hyfforddiant, ac mae pob un yr un mor bwysig â'i gilydd. Egwyddor bwysig yn Athrofa Padarn Sant (yr Athrofa) yw ein bod yn credu mewn **ffurfiant integredig**, gan fod pob agwedd ar yr hyfforddiant yn bwydo ei gilydd, ac yn dyfnhau ei gilydd.

Astudio Diwinyddiaeth

Bydd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn astudio ar y rhaglen 'Diwinyddiaeth ar gyfer bywyd' (y BTh mewn Diwinyddiaeth ar gyfer Disgyblaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth) a ddilysir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. A dweud y gwir, efallai eich bod eisoes wedi dechrau ar y cwrs hwn wrth ichi baratoi ar gyfer dirnadaeth. Cwrs gradd yw hwn a byddwch yn astudio ar lefel tystysgrif (lefel 4), lefel diploma (lefel 5) neu lefel gradd (lefel 6) yn ôl ein cyundeb efo chi yn eich cynllun hyfforddi.

Os oes gennych radd mewn diwinyddiaeth eisoes, cewch astudio ar gyfer cymhwyster ôl-raddedig, fel arfer gyda Phrifysgol Caerdydd. Gan ddibynnu ar faes llafur y radd Diwinyddiaeth wreiddiol, efallai y bydd angen ichi astudio modiwl mewn meysydd sydd o bwys allweddol i ffurfiant ar gyfer y weinidogaeth nad ydych wedi'u hastudio o'r blaen (e.e. litwrgi, diwinyddiaeth ymarferol, cenhadu ac efengylu). Bydd nifer fach o ymgeiswyr sydd ag anghenion/astudiaethau blaenorol mwy anarferol yn dilyn rhaglen bersonol o astudio diwinyddol. Yn yr achosion yma, mae'n ddefnyddiol i ni gael rhestr o fodiwlau rydych eisoes wedi astudio.

Mae yna lawlyfr ar wahân ar gyfer eich cwrs diwinyddiaeth. Bydd ymgeiswyr amser llawn yn astudio diwinyddiaeth ar safle'r Athrofa yng Nghaerdydd a bydd ymgeiswyr rhan-amser yn dilyn y cwrs Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd yn eich ardal leol. Er hynny, mae'r maes llafur yr un fath.

Cyfnodau Preswyl

Rhan allweddol arall o'r hyfforddiant yw'n rhaglen o gyfnodau preswyl, sef ysgol haf bob blwyddyn am wythnos (y drydedd wythnos ym mis Gorffennaf, fel arfer) a thri phenwythnos, a gynhelir mewn gwahanol rannau o Gymru. **Mae'n hanfodol bod yn bresennol ym mhob un o'r rhain** gan eu bod yn rhan annatod o'r hyfforddiant. Dyma pryd mae'r gymuned gyfan yn dod at ei gilydd i weddïo, cymdeithasu, dysgu ac addoli, ac agwedd bwysig arall ar y cyfnod preswyl fydd y cyfarfod â'ch tiwtor. Maent yn gymysgedd o ddysgu sgiliau gweinidogaethu mewn ffrydiau ac edrych gyda'n gilydd ar themâu pwysig mewn gweinidogaeth.

Dyma'r maes llafur:

Blwyddyn B = 2020/21 Blwyddyn A = 2021/22

Ysgol Haf - Ysbrydolrwydd
Cymeriad a Ffurfiant y Cristion (B)
Bywyd Newydd (B)
Doethineb wrth Arwain (B)

Ysgol Haf – Arwain eich Eglwys i Dyfu
Gobaith y Cristion (A)
Cynnal Gweinidogaeth Ffrwythlon (A)
Iachawdwriaeth (A)

Bydd ysgol haf arbennig bob blwyddyn i'r rhai yn eu trydedd flwyddyn ar y thema *Arweinyddiaeth ar Gyfer Heddiw*, i baratoi'r rhai fydd yn arfer arweinyddiaeth arwyddocaol yn y dyfodol yn yr Eglwys. Bydd gan bob cyfnod preswyl gymysgedd gwahanol o siaradwyr, felly er y gall y themâu fod yn debyg ym mhob bloc o ddwy flynedd, fe fydd yna bethau newydd i'w dysgu i'r rhai sydd ar raglen tair blynedd (yn ogystal â ffrwd gweinidogaeth newydd)

Byddwch hefyd yn dysgu sgiliau newydd ac yn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r gwahanol weinidogaethau drwy ddilyn grwpiau o'r enw 'ffrydiau gweinidogaeth'.

- Gweinidogaeth Plant, Ieuenctid a'r Teulu (rhaglen un flwyddyn)
- Arloesi (rhaglen dwy flynedd / rhaglen un flwyddyn)
- Addoli a Phregethu (rhaglen un flwyddyn)
- Bugeilio (rhaglen un flwyddyn)

Bydd eich tiwtor yn trafod gyda chi pa ffrwd weinidogaeth y byddwch yn ei dilyn ym mha flwyddyn. Bydd hyn yn dibynnu ar eich profiad blaenorol a'r weinidogaeth rydych yn hyfforddi ar ei chyfer. I rai ymgeiswyr, gan ddibynnu ar eu profiad, efallai y byddwn yn dyfeisio llwybr gwahanol e.e. mynychu'r ysgol haf mewn un ffrwd a chyfnodau preswyl mewn ffrwd arall.

Mae'r ddau faes olaf, **lleoliadau** a **chelloedd ffurfiannol**, yn rhan fawr o'r llawlyfr hwn.

Lleoliadau

Un rhan bwysig o'r hyfforddiant yw eich lleoliad lle byddwch yn ennill profiad fel aelod o dîm gweinidogaethu o dan oruchwyliaeth gweinidog profiadol. Fel rheol, mae lleoliad yn para drwy gydol y cwrs, am fod hynny'n caniatáu ymgysylltiad dwfn â chyd-destun, cymuned a chenhadaeth yr eglwys ac yn eich helpu i ddatblygu gwydnwch a dirnadaeth wrth ichi weithio drwy faterion yn y gymuned, yn hytrach na sgimio ar yr wyneb a symud ymlaen. Er hynny, efallai y byddwn hefyd yn trefnu 'profiad gweinidogaethu' byrdymor i ategu'ch profiad.

Bydd ymgeiswyr amser-llawn yn treulio dau ddiwrnod llawn yr wythnos ar leoliad a bydd ymgeiswyr rhan-amser yn cymryd rhan yn eu lleoliadau am o leiaf bedair awr yr wythnos. Mae yna hyblygrwydd o ran sut rydych chi'n trefnu'r amser a dreulir ar leoliad gyda'ch goruchwilydd ond yn gyffredinol:

- Rydym yn cymryd y cysyniad o ddiwrnod i fwrdd bob wythnos o ddifrif ac felly ar ôl cyfnod preswyl ar y penwythnos mae'n hanfodol eich bod yn cymryd diwrnod i fwrdd ar y dydd Llun neu'r dydd Mawrth os ydych yn ymgeisydd amser-llawn, gan wneud un diwrnod o leoliad yn unig yr wythnos honno. Er bod hyn yn fwy cymhleth i

ymgeiswyr rhan-amser, yn enwedig y rhai sy'n gweithio'n amser-llawn, rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn cymryd y penwythnos canlynol i ffwrdd o'ch gwaith lleoliad.

- Hoffem ichi gael profiad o un Wythnos Fawr a Phasg llawn ac un Nadolig llawn mewn eglwys ar leoliad yn ystod eich cyfnod hyfforddi, yn enwedig os ydych yn ymgeisydd amser-llawn. Gall fod angen i ymgeiswyr rhan-amser fod yn hyblyg gyda'u horiau ar leoliad yn yr wythnosau sy'n dilyn y gwyliau hyn fel nad yw eu llwyth gwaith yn ormodol.
- Rydym yn sylweddoli y bydd ymrwymiad ar y Sul yn arferol o'r naill wythnos i'r llall, gan ddibynnu ar y weinidogaeth rydych chi'n hyfforddi ar ei chyfer, ond efallai y bydd ymgeiswyr rhan-amser (yn enwedig) yn gweld y gall eu horiau ar leoliad ar gyfer yr wythnos fod ar ddiwrnodau heblaw dydd Sul.
- O ran ymgeiswyr y flwyddyn olaf, mae lleoliadau fel arfer yn dod i ben yng nghanol mis Mai er mwyn caniatáu amser i ffwrdd y mae angen mawr amdano cyn dechrau gweinidogaethu fel gweinidog ordeiniedig neu drwyddedig.
- Cofiwch fod amser lleoliad yn cynnwys amser paratoi a allai fod yn sawl awr i baratoi pregeth bob tro. Mae angen i ymgeiswyr rhan-amser yn arbennig gynllunio'r amser hwn yn ofalus – gall yr amser hwn gael ei rannu ar gyfartaledd dros nifer o wythnosau hefyd os yw hyn yn ei gwneud yn haws.

Dyma'r cyfle i sicrhau profiad da mewn gweinidogaeth, wrth ddatblygu meysydd eraill lle mae gennych sgiliau eisoes, a hefyd wrth ddysgu sgiliau gweinidogaethu cwbl newydd. Bydd disgwyl ichi ymroi'n llawn i fywyd y gymuned, gan addoli yn y cyd-destun hwnnw bob wythnos a dod yn rhan o'r tîm gweinidogaethu yno.

Rydym yn disgwyl y byddwch:

- Yn cael amryw o brofiadau yn y weinidogaeth rydych chi'n hyfforddi ar ei chyfer, naill ai o dan oruchwyliaeth uniongyrchol (gan ddilyn y gweinidog) neu, fel y bo'n briodol, yn ymgymryd â rhai tasgau ar eich pen eich hun ond o dan oruchwyliaeth gyffredinol y goruchwyllydd.
- Yn cael cyfle i fyfyrion ar eich gweinidogaeth gyda'ch goruchwyllydd mewn sesiynau rheolaidd.
- Yn rhoi cynnig ar sgiliau newydd e.e. pregethu, arwain addoliad, arwain prosiectau os yw'n briodol.
- Yn cymryd rhan yn ymwneud yr eglwys â'r gymuned ehangach, gan feithrin perthynas ac archwilio mathau priodol o genhadu ac efengylu yn y cyd-destun hwnnw.
- Yn aelod o'r Tîm Gweinidogaethu (ar ba ffurf bynnag y bydd – mae gan bob esgobaeth drefniadau gwahanol).

- Yn myfyrio ar gyd-destun a heriau gweinidogaethu a chenhadu yn yr ardal.

Pregethu

Dylai ymgeiswyr sy'n hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth bregethu. bregethu 6 gwaith y flwyddyn a derbyn adborth gan aelodau'r gynulleidfa yn ogystal â'u goruchwylwyr gan ddefnyddio'r ffurflen asesu pregeth. Yna dylid anfon y ffurflen yn electronig (os yn bosibl) at Reporting@stpadarns.ac.uk gyda chopi i'ch tiwtor ffurfio.

Rôl y goruchwilydd a'r ymgeisydd

Y goruchwilydd fydd yn gyfrifol am eich datblygiad yn y weinidogaeth, yn enwedig ym maes sgiliau gweinidogaethu. Yn y gorffennol byddai ymgeiswyr yn dilyn gweinidogion a dim ond yn anaml y bydden nhw'n gweinidogaethu eu hunain, ond bydd ein hymgeiswyr ni fel arfer yn cyrraedd eu hyfforddiant gyda chyfoeth o brofiad o arwain a gweinidogaethu eisoes, yn aml o fywyd y gweithle, y teulu a'r gymuned yn ogystal â bywyd yr eglwys, felly mae'n bwysig adeiladu ar y profiad hwn ac i'r goruchwilywr eich defnyddio'n llawn o fewn cenhadaeth a gweinidogaeth eich plwyf, eich eglwys neu'ch ardal genhadu neu weinidogaethu.

Y Goruchwilydd sy'n gyfrifol am y canlynol:

- eich croesawu i'r Tîm Gweinidogaethu fel aelod llawn a gwerthfawr
- trafod disgwyliadau a chwblhau'r cytundeb lleoliad
- darparu cyfleoedd ichi ymgymryd â thasgau sy'n gysylltiedig â'r weinidogaeth rydych chi'n ei datblygu
- eich galluogi i fod yn rhan o unrhyw brosiectau sy'n cael eu rhedeg gan yr Ardal Weinidogaethu ac i gymryd cyfrifoldeb dros agweddau ar hyn os yw'n briodol.
- eich galluogi i fyfrio'n fwy cyffredinol ar fywyd a gwaith yr Ardal Weinidogaethu, yr heriau y mae'n eu hwynebu a'r ffyrdd y mae ei dealltwriaeth o weinidogaeth a chenhadaeth yn llywio'r arferion
- rhoi adroddiadau ar eich cynnydd i Athrofa Padarn Sant
- cysylltu ag Athrofa Padarn Sant os bydd unrhyw faterion yn codi
- rhoi adborth da, gonest a heriol ichi.

Chi sy'n gyfrifol am y canlynol:

- cymryd rhan ym mywyd eglwys/ardal eich lleoliad **gydol y flwyddyn** (heblaw gwyliau personol). Nid yw lleoliadau Athrofa Padarn Sant (fel yn yr agweddau eraill ar hyfforddiant) yn dilyn tymhorau'r Brifysgol mwyach
- cymryd cyfrifoldeb am eich gwaith dysgu eich hun
- rhoi'r gorau i'r weinidogaeth rydych chi wedi'i chyflawni'n flaenorol yn eich plwyf/eglwys/ardal gartref. Siaradwch â'ch tiwtor os yw hyn yn aneglur neu'n peri problem, er mwyn cael eu cefnogaeth. (Mae trefniadau gwahanol yn gymwys i'r rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gweinidogaethau 'lleol' ond mae'n dal yn bwysig ystyried yr hyn y mae angen ei bennu a pha waith mewnol y mae angen ei wneud er mwyn symud o un weinidogaeth i'r llall.)

- Cofnodi'ch profiad. Mae'n bwysig eich bod yn cadw cofnod o'r tasgau rydych chi wedi'u cwblhau a'r myfyrdodau rydych chi wedi'u cyflawni. Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw cadw siwrnal (journal). Wedyn, gallwch gyfeirio at hyn mewn cyfarfodydd gyda'ch tiwtor a bydd yn sail ar gyfer hunanasesu yn y flwyddyn olaf. Er hynny, dogfen breifat er eich budd chi'ch hun yw hon. Fyddwn ni ddim yn gofyn am gael ei gweld
- Anfon yr holl ffurflenni perthnasol i reporting@stpadarns.ac.uk
- Gofalwch ddod ag unrhyw ffurflenni gyda chi (yn enwedig eich asesiadau pregeth) i'ch cyfarfod 1:1 gyda'ch tiwtor pan fyddwch yn trafod eich cofnod ffurfiant.

Bydd y trefniadau hyn yn cael eu trafod a'u cytuno gyda'ch tiwtor pan fyddwch yn cyfarfod i gytuno ar gytundeb hyfforddiant y lleoliad.

Rhagor o Brofiadau o Weinidogaeth

Fe allai fod yn ddefnyddiol ichi ennill profiad ehangach o fywyd neu weinidogaeth yr eglwys. Oes yna fwlch yn eich profiad nad yw'ch lleoliad yn mynd i'r afael ag ef? Gallai'ch goruchwylydd neu un o'ch tiwtoriaid hefyd awgrymu 'profiad gweinidogaethu' i chi. Gallai hyn gynnwys cyfnod byr mewn ysbyty neu hosbis neu garchar neu ysgol neu gyda mynegiant newydd o eglwys. Meddyliwch ble mae eich bylchau a siaradwch â goruchwylydd eich lleoliad a fydd o bosibl yn gallu trefnu rhywbeth yn lleol, neu â'ch tiwtor lleoliad a allai awgrymu profiadau eraill i chi.

Canllawiau i'r ymgeiswyr ynghylch myfyrio

Gallai hyn fod yn strwythur defnyddiol i'ch siwrnal:

Cwestiynau i'ch helpu i fyfyrto

Y dasg weinidogaethu

Beth nes i sylwi?

Sut aeth hi?

Beth ddysges i?

Sut des i ar draws Duw?

Sut mae fy ffydd i wedi tyfu neu wedi newid?

Sut galluogais i bobl eraill i dyfu yn eu ffydd neu i gyfarfod â Duw mewn ffyrdd newydd?

Beth wnawn i'n wahanol y tro nesaf?

Sut galluoges i weinidogaeth pobl eraill?

Celloedd Ffurfiannol

Wrth hyfforddi byddwch yn ymuno â Chell Ffurfiannol, a drefnir gan eich tiwtor. Y grŵp cefnogol hwn yw'r lle i ystyried sut rydych chi'n integreiddio pob agwedd ar eich ffurfiant, boed sut rydych chi'n tyfu ac yn cael eich herio'n ysbrydol, eich cydberthnasau newidiol, y sgiliau gweinidogaethu rydych yn eu datblygu neu eich gwaith dysgu diwinyddol. Y peth allweddol yw eich bod yn gallu cysylltu pob un o'r agweddau hyn ar ffurfiant â'i gilydd, ac mae'r gell yn lle pwysig i wneud hyn.

Bydd y rhai sy'n hyfforddi'n amser-llawn yn cyfarfod bob pythefnos ag aelodau o'u cell yn yr Athrofa yng Nghaerdydd. Bydd y rhai sydd mewn hyfforddiant rhan-amser yn ymuno â grŵp o bobl sy'n hyfforddi yn eu hardal gan gyfarfod â'r grŵp hwnnw o leiaf wyth gwaith drwy gydol y flwyddyn. Mae'r celloedd yn cael eu hwyluso gan Arweinydd Ffuriant sydd wedi'i hyfforddi ac a fydd hefyd yn adrodd yn flynyddol ar eich cynnydd, ond nid fel arfer ar fanylion yr hyn a rennir yn y grwpiau.

Syniadau Joanna Collicutt yn ei llyfr *The Psychology of Christian Character Formation* sydd wedi ffurfio sail ein dealltwriaeth ni o Gelloedd Ffurfiannol, a'r broses ffurfio gyfan a dweud y gwir. Mae hi'n dweud hyn:

Christian spiritual formation can be understood as the transforming work of the Spirit in every aspect of the life of the believer.....First, formation is seen to involve the whole of a person's life – embodied thinking, feeling, acting and being in relationship. Second, as Paul asserts in.....2 Corinthians, because of the nature of the Spirit, formation results in freedom. (Collicutt 2015 pennod 1).

Dyma sut mae Collicutt yn diffinio'r rhyddid hwn:

The work of the Spirit is not to change a person into something she is not, but to enable that person to be truly and fully herself. The Spirit is, after all, also the authentic Spirit of truth (Ioan 14.17; 15.26; 16.13). (Collicutt 2015 pennod 1).

Fydd y Gell ddim yn cynnwys mwy na phump o bobl fel arfer na llai na thri.

Rydym yn disgwyl i bob aelod o'r grŵp:

- Rhoi blaenoriaeth i fod yn bresennol
- Dod i'r grŵp yn barod i rannu rhywbeth real
- Bod yn fodlon cyfrannu'n gadarnhaol at ffuriant pobl eraill yn y grŵp
- Anrhydeddu cyfrinachedd y grŵp. Ni fydd gan unrhyw aelod o'r grŵp ganiatâd byth i siarad am ddeunydd rhywun arall mewn unrhyw gyd-destun. (Byddai torri cyfrinachedd fel hyn yn fater ffurfiannol difrifol ac yn dod o dan ein polisiau ar ymddygiad ymgeiswyr yn ystod hyfforddiant).

Dylai'r grŵp ddechrau pob blwyddyn drwy edrych eto ar y disgwyliadau hyn a chytuno arnynt gyda'i gilydd.

Strwythur y cyfarfod

1. Addoliad cychwynnol anffurfiol i'w rannu ymysg yr ymgeiswyr
2. Rhannu profiadau unigolion yn ddiweddar – caiff pob aelod o'r Gell Ffurfiannol gyfanswm o 20-25 munud i ddod â rhywbeth rydych chi'n credu ei fod yn arwyddocaol yn eich ffuriant. Gallai hyn fod yn rhywbeth sydd wedi digwydd ar leoliad, traethawd rydych chi'n cael trafferth ag ef, sgwrs bwysig gyda chyfoedion neu diwtor neu oruchwylydd, rhywbeth newydd rydych chi wedi'i ddysgu amdanoch eich

hun, neu hyd yn oed sgil newydd. Cofiwch fyfyrrio ar y materion cadarnhaol yn ogystal â'r problemau mwy anodd y gallech fod wedi dod ar eu traws.

3. Aelodau'r grŵp yn ymateb – drwy ofyn cwestiynau i helpu'r person i archwilio'r materion. Gall hyn wedyn helpu i ddod ag eglurder neu ddyfnhau'r profiad o ffurfiant. Ceisiwch beidio â chynnig cyngor ond caniatewch i'r person ymchwilio'n llawn i'w brofiad.
4. Wedyn bydd aelodau'r grŵp (gan gynnwys yr Arweinydd Ffurfiant), yn eu tro yn cynnig myfyrdod ar un peth sy'n rhoi bywyd ac un potensial ar gyfer twf yn yr hyn sydd newydd gael ei rannu.
5. Cofiwch mai dyma'r lle i integreiddio'r hyfforddiant. Byddwch yn ymwybodol o gysylltiadau diwinyddol ac ysbrydol â'r hyn sy'n cael ei rannu. Oes unrhyw oblygiadau ymarferol neu alwedigaethol i'r hyn rydych chi'n ei ddysgu neu'n ei astudio?
6. Gall fod yn briodol gorffen amser pawb â gweddi, boed mewn geiriau ynteu'n ddistaw cyn symud ymlaen i'r person nesaf.
7. Gweddi i gloi

Nodyn ar gyfrinachedd

Er bod y cyfarfodydd yn gyfrinachol yn yr ystyr nad ydym yn disgwyl i'r ymgeiswyr siarad am yr hyn a drafodir y tu allan i'r gell, bydd yr Arweinydd Ffurfiant yn rhoi adborth fel rhan o'r broses adrodd ar ffurfiant pob ymgeisydd. Y man lle gallwch siarad yn gwbl rydd a chyfrinachol y tu allan i'r cwrs yw gyda'ch Cyfarwyddwr Ysbrydol. Rydym yn annog pob ymgeisydd yn gryf i gael rhywun i fod gyda nhw yn ysbrydol, boed yn Gyfarwyddwr Ysbrydol, neu'n fentor doeth a dibynadwy. (Ceir rhagor o wybodaeth am gyfarwyddwyr ysbrydol yn ogystal â'n polisi cyfrinachedd yn ddiweddarach yn y llawlyfr hwn.)

Llyfryddiaeth

Collicutt, Joanna. (2015) **The Psychology of Christian Character Formation**. London: Hymns Ancient & Modern Ltd. Argraffiad Kindle.

Adroddiadau ar Ffurfiant

Un agwedd bwysig ar ffurfiant fydd y cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir rhyngoch chi a'ch tiwtor i drafod a diweddarau cofnod ffurfiant (ROF). Bwriedir i'r cyfarfodydd hyn fod yn ymestynnol, gonest a chefnogol ac yn fforwm allweddol ar gyfer eich datblygiad a'ch twf fel gweinidog. Disgwylir y bydd tiwtor y cofnod ffurfiant yn cyfarfod â phob ymgeisydd am 30 munud i awr dair i bedair gwaith y flwyddyn. Gall hyn fod yn ystod cyfnod preswyl.

Bydd y cofnod ffurfiant hwn hefyd yn bwydo'n hadborth i'ch esgob yn y cyfarfod adolygu ymgeiswyr bob chwe mis yn yr esgobaeth ac yn y pen draw bydd yn darparu tystiolaeth ar gyfer eich adroddiad i'r esgob. Mae enghraifft o'r ffurflen yng nghefn y llawlyfr hwn.

Strwythur y cyfarfodydd

1. Gweddi
2. Diweddariad byr am faterion ymarferol hyfforddi
3. Yr ymgeisydd yn mynegi ei obeithion ynglŷn â'r cyfarfod, ble yr hoffai gyrraedd erbyn diwedd y cyfarfod
4. Y tiwtor a'r ymgeisydd yn penderfynu pa faes neu feysydd yn y meini prawf i'w trafod
5. Trafod ffurfiant yr ymgeisydd yn y maes hwn neu'r meysydd hyn
6. Trosglwyddo'r drafodaeth i ddwylo Duw mewn gweddi

Mae gennym ddi-ddordeb hefyd yn eich cryfderau a'ch gwendidau a sut rydych chi'n datblygu ac yn tyfu fel gweinidog. Wrth feddwl am hyn efallai yr hoffech fyfyrion ar y deilliannau dysgu yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer y gwahanol weinidogaethau. Un cwestiwn pwysig i ni felly yw sut y byddwch yn ymateb i adborth, ac weithiau er mwyn ymdrin â'r cofnod ffurfiant gallwn hefyd ddefnyddio Ffenestr Johari – pa argraff rydych chi'n ei rhoi, heb sylweddoli hwyrach, sy'n effeithio ar eich gweinidogaeth?

The Johari Window

1 Open Known to self and to others	2 Blind Not known to self but known to others
3 Hidden Known to self but not to others	4 Unknown Not known to self or others

Mae'r sgysiau hyn bob amser yn digwydd yn yr ysbryd o gyd-gerdded â chi ar eich ffurfiant. Rydym i gyd yn tyfu ac yn datblygu fel disgyblion a gweinidogion. Mae croeso i chi edrych unrhyw dro ar eich Cofnod Ffurfiant.

Adroddiadau i'r esgob

Rydych yn hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth gydag Athrofa Padarn Sant am fod eich esgob wedi'ch **noddi** (fel rheol ar argymhelliad bwrdd taleithiol neu ranbarthol). Rydym yn cymryd y nawdd hwn o ddifrif, ac mae'r Pennaeth â'r Deon yn adrodd ar eich cynnydd mewn cyfarfod adolygu ymgeiswyr bob chwe mis gyda phob esgob, gydag adroddiad ffurfiol, fel arfer yn ystod eich blwyddyn olaf. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei seilio ar eich cofnod ffurfiant a'r sgyrsiau a gawsoch gyda'ch tiwtor ac er mwyn ysgrifennu'ch adroddiad byddwn yn defnyddio'r rhain fel tystiolaeth, ynghyd ag adroddiadau gan arweinydd eich cell ffurfiannol a goruchwylydd eich lleoliad. Mae'r broses hon fel arfer yn digwydd ym mis Rhagfyr yn eich blwyddyn olaf.

Ym mis Tachwedd eich blwyddyn olaf, byddwn yn gofyn ichi ysgrifennu hunanasesiad ac yn dechrau casglu'r adroddiadau eraill yn ogystal â choladu'r adroddiadau a'r adborth ar bregethau sydd gennym eisoes. I'r rhai sydd ar raglen un flwyddyn, mae hyn yn digwydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn, fel arfer fis Mawrth..

Bydd eich tiwtor yn ysgrifennu drafft o'r adroddiad ddiwedd mis Tachwedd neu ddechrau mis Rhagfyr ac yn anfon hwnnw at y Deon ar gyfer ei sylwadau hi. Pan fydd yr adroddiad wedi'i gytuno, mae'n cael ei anfon at y Pennaeth. Byddwn yn ei rannu gyda chi a bydd cyfle i ychwanegu sylwadau neu ar achlysuron prin iawn, i gytuno ar unrhyw newidiadau.

Adroddiadau arbennig

Ar adegau, gallai esgobion ofyn am adroddiad arbennig, a hynny am amryw o resymau – efallai fod y ffurfiant wedi dilyn llwybr gwahanol neu'n symud ymlaen mewn ffordd wahanol i'r hyn a ddisgwyliid. Gallai fod pryderon ynghylch ffurfiant ymgeisydd neu gwestiynau am sut i'w leoli yn y dyfodol. Weithiau bydd yr esgob yn ceisio cyngor ynghylch a ddylai barhau i noddi ymgeisydd. Byddwn bob amser yn rhannu'r adroddiad gyda chi a bydd cyfle bob amser i negodi newidiadau ac ychwanegu sylwadau.

Os yw hi'n debygol y bydd adroddiad arbennig yn codi cwestiynau i'r esgob o ran parhau â'i nawdd, y broses arferol yw:

1. Mae pryder yn cael ei godi ynghylch ffurfiant ymgeisydd gan diwtor, goruchwylydd lleoliad, hwylusydd neu arweinydd ffurfiant.
2. Os yw hyn yn dal yn bryder ar ôl ceisio rhoi adborth i'r ymgeisydd, bydd y tiwtor Cofnod Ffurfiant yn cael cyfarfod un i un gyda'r ymgeisydd.
3. Os yw'r mater yn dal i beri pryder, ar ôl rhoi adborth, bydd y tiwtor a'r Cyfarwyddwr Ffurfiant ar gyfer Gweinidogaeth Drwyddedig yn cyfarfod â'r ymgeisydd. Gall yr ymgeisydd ddod â ffrind neu gefnogwr.
4. Bydd y tiwtor a'r Cyfarwyddwr Ffurfiant ar gyfer Gweinidogaeth Drwyddedig yn penderfynu a ddylai'r pryderon hyn gael eu rhannu ai peidio drwy gyfrwng adroddiad arbennig gydag esgob yr ymgeisydd, mewn ymgynghoriad â'r Prifathro.
5. Os penderfynir ysgrifennu adroddiad arbennig, cynhelir cyfarfod pellach er mwyn rhannu cynnwys yr adroddiad gyda'r ymgeisydd.
6. Anfonir yr adroddiad at yr esgob a gaiff argymhell gwahanol gamau gweithredu neu hyd yn oed dynnu ei nawdd yn ôl.

Cefnogaeth a chymorth bugeiliol

Rydym yn deall y gall ffurfiant fod yn gyfnod anodd oherwydd materion a all gael eu codi i chi, neu efallai y bydd pethau eraill yn eich bywyd yr ydych yn gorfod delio â nhw hefyd. Rhowch wybod i ni os gallwn ni fel tiwtoriaid helpu mewn unrhyw ffordd.

Rydym yn ymwybodol hefyd y gall fod pethau yr hoffech eu trafod sy'n gwbl gyfrinachol ac sydd ar wahân i broses ffurfiant. Hoffem eich annog i gael cyfarwyddwr ysbrydol (mentor hyfforddedig a fydd yn cyfarfod â chi i drafod eich bywyd gweddi) ac efallai y bydd y cysylltiadau canlynol yn gallu helpu.

Gallem hefyd drefnu therapi neu chwmsela. Yn yr ymgylchiadau yma, rydym fel arfer yn eich gyrru am asesiad efo seicotherapydd er mwyn cael cyngor ynglŷn â'r cymorth gorau phosib.

Cysylltiadau yn yr esgobaethau ynglŷn â chyfarwyddyd ysbrydol

Mynwy

Y Parch. Jane Butler jane.upperislwyn@yahoo.com 01495 231241

Tyddewi

Y Parch. Andrew Johnson frandrewj@btinternet.com 01646 636966

Bangor

Y Parch. Janet Fletcher revjfletcher@btinternet.com 01654 711792

Llandaf

Y Parch. Edward Dowland-Owen vicar@parishofmargam.org.uk

Abertawe ac Aberhonddu

Y Parch. Canon G.E. Bennett bennettgandr@gmail.com 01792 203717

Llanelwy

John Foxlee johnfoxlee@outlook.com 01352 810677

Mae gan yr Eglwys yng Nghymru hefyd wasanaeth cwmsela dwyieithog am ddim sy'n agored i'r rhai sy'n cael eu hyfforddi yn ogystal â'r rhai sydd yn y weinidogaeth:

<https://www.churchinwales.org.uk/structure/representative-body/hr/cynnal-counselling/>

Mae gennyn ni hefyd *Gronfa Caledi'r Pennaeth* sy'n gallu helpu ymgeiswyr, fel arfer y rhai sy'n hyfforddi'n amser-llawn ac sydd heb ffynhonnell incwm arall. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan eich tiwtor.

Tiwtoriaid Athrofa Padarn Sant

Eich prif gyswllt fydd eich tiwtor ffurfiannol, a nhw fydd yn cyfarfod â chi yn rheolaidd yn ystod yr hyfforddiant. Nhw fydd yn gyfrifol am sefydlu a chefnogi eich lleoliad, sicrhau fod ganddoch gell ffurfiannol a bod eich cofnod ffurfiannol yn gyfredol. Byddant yn sôn wrthych am eich cryfderau a'r heriau rydych yn eu gwynebu a byddant hefyd yn ysgrifennu drafft cyntaf eich adroddiad. Rydym fodd bynnag yn cyd-weithredu fel tîm ac o bryd i'w gilydd mae'n bosib bydd tiwtor arall yn cyd-weithio efo'ch prif diwtor.

Tiwtoriaid eraill y gallech ddod ar eu traws:

Os ydych yn hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth Arloesi, mae Helen Shepherd, ein harbenigydd mewn gweinidogaeth Arloesi yn gweithredu fel cynghorydd i'r Deon ac i'n tîm tiwtoriaid.

Os ydych yn hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd, mae Mark Griffiths, ein harbenigydd mewn gweinidogaeth ieuencid a phlant yn gweithredu fel cynghorydd i'r Deon ac i'n tîm tiwtoriaid.

Mae'n debyg y dewch chi ar draws holl diwtoriaid yr Athrofa mewn un ffordd neu'r llall drwy gydol eich cyfnod hyfforddi. Ewch i'r wefan i gael rhagor o wybodaeth am y gwahanol rolau a chyfrifoldebau.

Gwyliau

Rydym yn disgwyl y bydd gennych o *leiaf* yr un lwfans gwyliau â chlerigion yr Eglwys yng Nghymru, p'un a ydych yn hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth amser-llawn ynteu rhan-amser. Mae'r llawlyfr i glerigwyr yn nodi:

Mae gan Glerig hawl i gael pedair wythnos o wyliau'r flwyddyn, gan gynnwys pedwar dydd Sul y flwyddyn a'r Gwyliau Banc hynny nad ydynt yn cyd-daro â Dydd Nadolig a Gwener y Groglith. Hefyd, mae gan Glerig yr hawl i gael dau gyfnod o chwe diwrnod o wyliau i'w cymryd wedi'r Nadolig a'r Pasg.

Mae angen dehongli'r lwfans hwn yn hyblyg yn achos y rhai sydd wrthi'n hyfforddi – ceir ymrwymadau hyfforddi ar sawl Sul ac felly yn ymarferol, chwe wythnos yw'r hawl i gael gwyliau. (Gan gynnwys cyfnodau i ffwrdd ar ôl y Nadolig a'r Pasg, yr hawl i wyliau sydd gan glerigwyr yw chwe wythnos minws dau ddydd Sul.)

Arfer da yw negodi ynglŷn â'ch gwyliau ymhell ymlaen llaw gyda'ch goruchwylydd lleoliad, o ran cwртеisi, p'un a ydych yn hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth amser-llawn ynteu rhan-amser. Rydym yn disgwyl ichi fod ar eich gwyliau pan fyddwch ar eich gwyliau gan ddefnyddio'r amser i'w neilltuo i'ch gweithgareddau hamdden a gorffwys ac nid dal i fyny â gwaith darllen neu aseiniad neu fynd i ddiwyddiadau'r eglwys!

Rydym yn deall ei bod yn anodd i'r rhai sy'n hyfforddi'n rhan-amser ac sydd â gwaith amser-llawn yn ogystal â chyfrifoldebau teuluol a chyfrifoldebau gofalu eraill, gan y gallai fod yn demtasiwn astudio a gwneud gwaith lleoliad yn ystod gwyliau o'ch prif waith.

Ond, hoffem eich annog i roi strategaethau da ar waith i daro cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith yn ystod eich hyfforddiant a siaradwch â'ch tiwtor a/neu'ch goruchwylydd lleoliad am sut i sicrhau y gallwch gael digon o amser i ffwrdd bob wythnos yn ogystal â gwyliau o'ch gwaith cyflogedig a chyfrifoldebau a hyfforddiant yr eglwys. Mewn achosion o wir angen efallai y byddwn yn gallu bod yn hyblyg.

Mae gan y rhai sy'n hyfforddi'n amser-llawn flociau addysgu dwys lle disgwylir ichi fod ar y safle yn ystod yr adegau hynny. Yn y cyfnodau y tu allan i'r blociau addysgu (a fyddai'n cael eu galw'n gwyliau yn draddodiadol) rydym yn dal yn disgwyl ichi fod ar leoliad ddau ddiwrnod yr wythnos, ond mae'r dyddiau eraill yn gyfleoedd i astudio, darllen, archwilio a myfyrio mewn ffordd nad yw bob amser yn bosibl yn ystod cyfnod prysur y blociau addysgu. Fel yn y cyngor uchod, mae hi hefyd yn bwysig eich bod yn cymryd eich hawl lawn i gael gwyliau i ffwrdd o astudiaethau a'r lleoliad.

Gofalwch siarad â'ch tiwtor neu'r Cyfarwyddwr Ffuriant ar gyfer Gweinidogaeth Drwyddedig os hoffech gael rhagor o arweiniad yn hyn o beth.

Rhestr Gyfeirio Flynyddol

Drwy gydol y flwyddyn:

- Anfonwch eich ffurflen adborth pregethu at reporting@stpadarns.ac.uk ar ôl pob pregeth
- Cyfarfodydd y gell ffurfiannol (8 yn rhan-amser trwy gydol y flwyddyn)
- Cadwch siwrnal o'ch myfyrdodau a nodyn o dasgau'r lleoliad a'ch ymateb iddynt. Gall hyn fod yn fyr ac ni fydd yn cael ei rannu gyda ni ond fe all fod yn sail i sgysiaid gyda thiworiaid ac i'ch hunanasesiad yn y flwyddyn olaf
- Gofalwch fod y Cofnod Ffuriant yn gyfoes a bod gennym yr wybodaeth gysylltu ddiweddaraf
- Gofalwch fod gennych gyfarfodydd rheolaidd yn y dyddiadur gyda'ch goruchwylydd lleoliad ar gyfer goruchwylio gydol y flwyddyn, o leiaf 8-10.
- Gofalwch eich bod yn cyfarfod â'ch tiwtor o leiaf dair i bedair gwaith y flwyddyn.

Gorffennaf

Ysgol haf!

Awst

Medi

Cytuno ar ddyddiadau pregethu, naill ai am y tymor, neu hyd yn oed y flwyddyn!

Cyfarfod 1:1 gyda'r tiwtor (neu ym mis Hydref)

Os ydych ym mlwyddyn 1, trefnu cytundeb lleoliad gyda'ch tiwtor lleoliad a'ch goruchwylydd

Hydref

Darllen neu fyfyrrio i baratoi at gyfnod preswyl

Cyfnod preswyl

Cyfarfod 1:1 gyda'r tiwtor (oni bai ei fod wedi'i gynnal ym mis Medi)

Tachwedd

Os ydych yn y flwyddyn OLAF, dechrau casglu ffurflenni ar gyfer proses yr adroddiad i'r esgob ac ysgrifennu'ch hunanfyfyrdod eich hun.

Rhagfyr

Blwyddyn olaf YN UNIG – trefnu manylion terfynol adroddiad yr esgob. Cyfarfod â'ch tiwtor i drafod yr adroddiad i'r esgob a'i lofnodi.

Ionawr

(Cytuno ar ddyddiadau pregethu)

Darllen neu fyfyrrio i baratoi at gyfnod preswyl.

Cyfarfod 1:1 gyda'r tiwtor.

Chwefror

Cyfnod preswyl

Cyfarfod 1:1 gyda'r tiwtor (oni bai ei fod wedi'i gynnal ym mis Ionawr)

Mawrth

Ymgeiswyr un flwyddyn - trefnu manylion terfynol adroddiad yr esgob. Cyfarfod â'ch tiwtor i drafod yr adroddiad i'r esgob a'i lofnodi (gweler Rhagfyr).

Ebrill

(Cytuno ar ddyddiadau pregethu)

Darllen neu fyfyrrio i baratoi at gyfnod preswyl.

Mai

Cyfnod preswyl

Cyfarfod 1:1 gyda'r tiwtor

Pob Blwyddyn heblaw'r Flwyddyn Olaf – Ystyriwch unrhyw drafodaethau y mae angen eu cael ynglŷn â'ch llwybr dysgu

Mehafin

Pob Blwyddyn heblaw'r Flwyddyn Olaf – ffurflenni lleoliad i reporting@stpadarns.ac.uk ac i'ch tiwtor

Ffurflen adolygu'r gell ffurfiannol i reporting@stpadarns.ac.uk ac i'ch tiwtor

Gwybodaeth ymarferol

Grantiau

Mae'r Eglwys yng Nghymru'n darparu grantiau i bobl sy'n hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth. Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar ein gwefan. Telir costau astudiaethau academiaidd hefyd wrth ichi hyfforddi ac mae swm back ar gael ar gyfer llyfrau a chostau perthynol. O ran ymgeiswyr amser-llawn, cyfrifir y grant yn unigol gan ddibynnu ar gostau tai, incwm y cartref a chostau byw eraill. Pan fydd Athrofa Padarn Sant wedi cael ffurflen noddi'r ymgeisydd gan eu hesgobaeth, mae'r wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i Adran Gyllid yr Eglwys yng Nghymru. Byddan nhw'n anfon rhagor o wybodaeth am yr hawl i gael grant a ffurflenni i'w llenwi er mwyn gwneud cais am grantiau.

Os oes gennych ymholiadau am hyn, cysylltwch â Kathryn Delderfield, ein Cyfarwyddwr Gweithrediadau sy'n delio â grantiau:

Ebost: Kathryn.Delderfield@stpadarns.ac.uk

Prif rif ffôn: 029 2056 3379

Ffôn symudol: 07388994732

Treuliau

I'r ymgeiswyr hynny a fydd yn teithio i Gaerdydd, o ddydd Mercher i ddydd Gwener, bydd eich costau teithio ar y siwrneiau hyn yn cael eu cyfrifo a'u cynnwys yn eich taliadau grant misol. Dylech gwblhau treuliau lleoliadau drwy ddefnyddio'r ffurflen ar Moodle. Gall ymgeiswyr wneud cais am deithio i gyfnodau preswyl a theithio i leoliadau y tu allan i'w hardal weinidogaethu (mewn achosion lle mae ardal weinidogaethu'n arbennig o fawr, gall lwfansau gael eu gwneud – cysylltwch â'ch tiwtor os ydych yn credu bod hyn yn gymwys i chi). Dylech lenwi'r ffurflen a'i hanfon at eich tiwtor lleoliad. I gael ad-daliad costau teithio, bydd angen i'r ymgeisydd ddarparu naill ai derbynneb yn achos cludiant cyhoeddus, neu nifer y milltiroedd. Bydd 45c y filltir yn cael ei dalu am y 10000 milltir cyntaf, a 25c y filltir wedyn.

Ni ddylai fod achos fel arfer i ymgeiswyr hawlio treuliau heblaw teithio, o gofio bod y grantiau wedi'u bwriadu i dalu am dreuliau achlysurol eraill. Ar yr adegau prin pan allai ymgeisydd ysgwyddo treuliau eraill, mae'n rhaid i'r Deon awdurdodi'r rhain ymlaen llaw.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am dreuliau, cysylltwch â Lyn Davies. Mae'r ffurflen ar Moodle.

Cymorth i'ch priod

Yn ogystal â chefnogi'n hymgeiswyr gydol eu hyfforddiant a'u ffurfiant, mae Athrofa Padarn Sant wedi ymrwmo i gefnogi ac annog partneriaid a theuluoedd ein hymgeiswyr. Rydym yn cydnabod bod gweinidogaeth yn aml yn gosod gofynion unigryw ar deuluoedd gweinidogion (byw mewn tai eglwysig, gweithio ar benwythnosau, etc.), ac mae'n bwysig bod partneriaid yn teimlo eu bod wedi'u paratoi ar gyfer y gwirioneddau hyn. Er mor bwysig yw gweinidogaeth a hyfforddiant yn y weinidogaeth, mae gofalu'n

dda am y rhai sydd agosaf atom hefyd yn agwedd arwyddocaol ar ein galwad, ac mae'r Athrofa wedi ymrwmo i ffyniant teuluoedd ein hymgeiswyr.

Kristina Hillebert yw ein Cydlynnydd Cymorth i Bartneriaid a gellir cysylltu â hi ar kristina.hillebert@gmail.com. Mae gennym hefyd gaplan gwirfoddol, Wendy Matthews sy'n briod â chlerig ac sydd wedi treulio ei gyrfa fel therapydd galwedigaethol iechyd meddwl. Gellir cysylltu â hi ar wendlmatt@yahoo.co.uk neu 01633 258046. Byddai Krisi a Wendy yn falch iawn o glywed gan bartneriaid.

I'r rhai sy'n hyfforddi'n amser-llawn ac yn byw yng Nghaerdydd, mae nifer o gyfleoedd i bartneriaid a theuluoedd fod yn rhan o fywyd y gymuned. Bob dydd lau, rydym yn cynnal gwasanaeth o addoliad i bob oed ac wedyn 'cinio teuluol', y mae pob teulu yn cael eu gwahodd yn gynnes iddo. Mae croeso hefyd i bartneriaid ymgeiswyr archwilio modiwl bob tymor a dod i ddarlithoedd a phregethau gwadd gyda'r nos. Bydd y Tiwtor Preswyl, Jordan, a'i wraig, Krisi, yn cynnal digwyddiadau cymunedol yn Nhŷ'r Capel yn aml, ac mae partneriaid yr ymgeiswyr wedi cyfarfod yn rheolaidd yn y gorffennol ar gyfer astudiaethau Beiblaidd, nosweithiau gemau, etc. Ddwywaith y flwyddyn, rydym yn darparu 'swper allan' i wŷr a gwragedd ein hymgeiswyr gael cymdeithasu a chlywed gan siaradwr gwadd. I'r ymgeiswyr hynny sydd wedi'u lleoli yn yr esgobaethau, mae modd trefnu bod ystafelloedd ar gael ar adegau i'w teuluoedd ymuno â nhw ar gyfer digwyddiadau/prydau/addoliadau yn y coleg.

I'r rhai sy'n hyfforddi'n rhan-amser, cysylltwch â'ch tiwtor yn yr esgobaeth ynghylch cymorth i'ch priod er mwyn i weithgareddau lleol gael eu trefnu. Dyma faes yr ydym yn awyddus i'w ddatblygu, ond gan fod anghenion a phatrymau gwaith gwŷr a gwragedd yn wahanol, mae'r hyn sy'n briodol yn amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall.

Ffurflenni

Adroddiad blynyddol ar leoliad a rhestr gyfeirio

Ymgeisydd:
Gweinidogaeth:
Goruchwyllydd:

Dyddiadau cyfarfodydd goruchwyllo:

- Cryfderau'r ymgeisydd yn y weinidogaeth
- Meysydd i'w datblygu y buon ni'n gweithio arnynt yn y sesiynau goruchwyllo
- Tasgau'r weinidogaeth (disgrifiad byr ac adborth)
- Ymwneud â'r gymuned ehangach (disgrifiad byr ac adborth)
- (Os yw'r ymgeisydd yn hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth bregethu) Y pregethau a draddodwyd a'r dyddiadau: (anfon ffurflenni at yr Athrofa?)

Dylai ymgeiswyr sy'n hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth bregethu bregethu chwe gwaith y flwyddyn a sicrhau adborth gan aelodau'r gynulleidfa a'r goruchwylwyr.

Os hoffech drafod cynnydd yr ymgeisydd, cysylltwch â'r tiwtor lleoliad neu'r Deon.

Adroddiad terfynol ar y lleoliad

Adroddiad y goruchwylydd:

Ymgeisydd:

Gweinidogaeth:

Goruchwylydd:

Ffuriant fel Gweinidog

Soniwch am ddatblygiad personol a gweinidogol yr ymgeisydd tuag at weinidogaeth drwyddedig yn yr Eglwys yng Nghymru. Beth yw cryfderau a gwendidau'r ymgeisydd?

Deall y Ffydd

Soniwch am sut mae'n yn cyfleu ei ffydd a'i waith dysgu yn eglwys/eglwysi yn enwedig wrth bregethu (os yw'r ymgeisydd yn hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth bregethu).

Ysbrydolrwydd ac addoli

Sut mae'r ymgeisydd yn ysbrydoli pobl eraill wrth addoli a thrwy ei ysbrydolrwydd ei hun?

Cenhadu ac efengylu

Soniwch am allu'r ymgeisydd i ymwneud yn effeithiol â chenhadaeth yr eglwys, a'i sgiliau efengylu.

Personoliaeth a chymeriad

Soniwch am bersonoliaeth a chymeriad yr ymgeisydd, ac am ei wydnwch a'i ymateb i straen.

Perthnasoedd

Soniwch am allu'r ymgeisydd i gychwyn a datblygu perthnasoedd yn y tîm gweinidogaethu, yr eglwys a'r gymuned. Sut mae'n datblygu o ran cymeriad ac a yw personoliaeth yr ymgeisydd yn ennyn ac yn meithrin perthynas ag eraill? Sut mae'r ymgeisydd yn cael cefnogaeth gan ei rwydwaith o deulu a ffrindiau?

Arweinyddiaeth

Soniwch am allu'r ymgeisydd i arwain meysydd ym mywyd yr eglwys ac i fod yn aelod effeithiol o dîm.

Ymarfer Myfyrgar

Soniwch am allu'r ymgeisydd i fyfyrion ar ei arferion ac i ddefnyddio'r myfyrdod hwnnw i weithredu'n wahanol yn y dyfodol.

Rhagor o Anghenion Hyfforddi

Enwch unrhyw feysydd lle rydych chi'n credu y byddai'r ymgeisydd yn elwa o gael rhagor o hyfforddiant.

Unrhyw sylwadau ychwanegol

Llofnod

Goruchwylydd

Dyddiad y trafod gyda'r ymgeisydd, ac unrhyw sylwadau

Anfonwch gopi o'r ffurflen hon at y myfyriwr ac at Reporting@stpadarns.ac.uk

Adolygiad Blynyddol Cell Ffurfiannol

Enw'r Gell Ffurfiannol:

Enw'r Ymgeisydd:

Soniwch am sut bu'r ymgeisydd yn ymgysylltu â'r grŵp.

Dangoswyd tystiolaeth o ymgysylltu â'r broses ffurfio yn y ffyrdd hyn:

Os oes unrhyw bryderon am yr ymgeisydd, trafodwch y rhain gyda'r ymgeisydd, a rhowch y manylion hefyd a fydd yn cael eu rhannu gyda'r Cyfarwyddwr Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig.

Nifer y sesiynau a fynychwyd:

Llofnod:

Dyddiad:

Arweinydd Ffurfiant

Anfonwch gopi o'r ffurflen hon at y myfyriwr ac at Reporting@stpadarns.ac.uk

Cytundeb Lleoliad Hyfforddi

Dylai'r cytundeb hwn gael ei wneud mewn trafodaeth rhwng yr ymgeisydd, y goruchwylydd a thiwtor priodol Athrofa Padarn Sant.

1. Manylion Cyffredinol

Ardal Genhadu / Ardal Weinidogaethu / Bywoliaeth:

Ymgeisydd

Y weinidogaeth y mae'r ymgeisydd yn hyfforddi ar ei chyfer.

Blwyddyn hyfforddi

Goruchwylydd

Patrwm gwaith wythnosol arferol:

2. Datblygiad ffurfiannol

Rhestr o dasgau i'w cwblhau gyda dyddiadau ar gyfer y cyfnod dechreuol (dyddiadau pellach i'w hychwanegu drwy gydol y flwyddyn)

Dyddiadau sesiynau goruchwylio:

Gwaith prosiect: Unrhyw brosiect yn yr ardal weinidogaethu y gall yr ymgeisydd fod yn rhan ohono neu ei arwain?

Llofnod: (Goruchwylydd)

Llofnod: (Ymgeisydd)

[Dylai tiwtor Athrofa Padarn Sant gadw copi o'r ddogfen hon ac anfon copi at reporting@stpadarns.ac.uk]

Mae copïau electronig o'r ffurflen hon ar gael gan gydlynnydd y cwrs, Lyn Davies (lyn.davies@stpadarns.ac.uk)



Ffurflen Adborth Pregethu

Os oes gennych gwestiynau am lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â manon.c.james@stpadarns.ac.uk. Gall y ffurflen gael ei defnyddio gan y goruchwylydd, gweinidog profiadol arall neu aelodau'r gynulleidfa.

Mae adborth yn rhan hanfodol o dyfu a dysgu fel pregethwr newydd. Felly, rydym yn ddiolchgar iawn i chi am fod yn barod i roi adborth. Gofalwch ysgrifennu'n onest gan roi enghreifftiau os oes modd. Diolch yn fawr ichi am chwarae rhan bwysig wrth ffurfio a hyfforddi'r sawl a roddodd y ffurflen hon ichi. Llenwch gymaint ag y gallwch ac mae croeso ichi sgipio unrhyw gwestiynau sy'n ymddangos yn amherthnasol.

Enw'r Ymgeisydd

Enw'r Eglwys

Math o wasanaeth (e.e. Ewcarist/ Gwasanaeth y Gair / Pob oed / etc.)

Y dyddiad a'r diwrnod yng nghalendr yr Eglwys

Eich rôl chi (goruchwylydd, aelod o'r gynulleidfa etc)

Beth oedd neges gyffredinol y bregeth?

Sut gysylltiad oedd yna rhwng y bregeth a'r darlleniad neu'r darlleniadau o'r Beibl? A wnaeth y pregethwr dynnu ystyr allan o un o leiaf o'r darnau yn effeithiol ac yn briodol?

A gafodd y bregeth ei hanelu'n effeithiol at y gynulleidfa ac a oedd yr iaith yn briodol yn eich barn chi i chi ac i'r gynulleidfa?

Pa ran o'r bregeth oedd yn fwyaf diddorol i chi a pham?

Pa ran o'r bregeth oedd leiaf diddorol yn eich barn chi? Pam hynny?

A wnaeth y darluniau weithio? Beth oedd yn peri eu bod yn effeithiol?

Soniwch am y traddodi: Sut un oedd y pregethwr o ran defnyddio'r canlynol:

- llais (e.e. oedd hi'n hawdd clywed? Fuodd y pregethwr yn gweiddi / yn swnio'n frwdfrydig neu'n ddiflas? etc.)
- iaith y corff (e.e. wnaeth y pregethwr gerdded o gwmpas neu ddefnyddio symudiadau'r dwylo a'r breichiau mewn ffordd oedd yn helpu neu'n tynnu sylw oddi ar y bregeth?)
- cysylltiad llygaid (e.e. oedd y pregethwr yn edrych ar ei nodiadau drwy'r amser / yn edrych ar bobl o dro i dro?)

Oes yna rywbeth y byddwch yn ei wneud o ganlyniad i'r bregeth hon?

Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill, rhowch nhw yma neu ar ddalen arall o bapur.

Rhowch y ffurflen hon yn ôl i'r sawl a'i rhoddodd ichi.

(Ymgeiswyr: anfonwch gopi o'r ffurflen hon at eich tiwtor lleoliad ac at reporting@stpadarns.ac.uk. Cadwch gopi hefyd ar gyfer eich cofnodion).

Polisiau a ble i'w cael

Mae polisiau perthnasol yr Eglwys yng Nghymru ac Athrofa Padarn Sant i'w cael ar adran yr ymgeiswyr yn Moodle (a gallwch weld rhai o dan ddogfennau'r clerigion ar wefan yr Eglwys yng Nghymru). Rhaid i'r ymgeiswyr gadw polisiau'r Eglwys yng Nghymru a'r Athrofa.

Fodd bynnag, mae'r polisi presenoldeb yn uniongyrchol berthnasol i'ch cofnod ffurfiant ac felly mae hefyd yn cael ei atgynhyrchu yma er hwylustod.

Rydym hefyd yn atgynhyrchu y polisi cyfrinachedd yma hefyd.

Polisi presenoldeb

Mae presenoldeb yn hanfodol trwy gydol eich hyfforddiant. Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi buddsoddi adnoddau sylweddol i hyfforddi gweinidogion trwy St Padarn's. Yn ariannol, mae hyn yn cynrychioli rhodd aberthol aelodau ffyddlon o gynulleidfaoedd ledled Cymru er mwyn gwasanaethu cenhadaeth yr Eglwys yng Nghymru. Mae presenoldeb felly, yn y lle cyntaf, yn ymwneud ag atebolrwydd i'r Eglwys ehangach yng Nghymru a stiwardiaeth dda ar adnoddau.

Dyluniwyd gwahanol rannau hyfforddiant yn ofalus er mwyn sicrhau bod pob ymgeisydd yn derbyn ffurfiant weinidogol trwyadl gan ddefnyddio pedwar maes - dysgu diwinyddol, lleoliadau, cyfnodau preswyl a chelloedd ffurfiannol.

Mae pob agwedd ar hyfforddiant yn hanfodol a byddai colli unrhyw ran yn arwain o bosibl at brofiad llai o hyfforddiant ac at fylchau a fydd yn anodd mynd i'r afael â hwy yn nes ymlaen. Felly, rydym yn disgwyl ichi flaenoriaethu pob rhan o'r hyfforddiant, yn ystod y cyfnod hyfforddi, ac ystyried yn ofalus eich gallu i wneud y math hwn o ymrwymiad cyn hyfforddi, a hefyd sicrhau nad yw ymrwymadau eglwysig eraill yn ymwithio i'r cyfle unigryw yma i ymgolli mewn ffurfiant ddiwinyddol, ymarferol ac ysbrydol.

Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli bod sefyllfaoedd o bryd i'w gilydd yn codi sy'n golygu eich bod yn anochel yn absennol o agweddau ar ffurfiant. Os bydd sefyllfa o'r fath yn codi, mae'n hanfodol eich bod chi'n hysbysu'r person perthnasol e.e.

- Salwch - os yw salwch yn golygu na allwch gyflawni ymrwymiad, rhowch wybod i'r person perthnasol cyn gynted â phosibl. Mae angen cyfleu cyfnod o salwch am fwy nag ychydig ddyddiau i'ch tiwtor.
- Angen Bugeiliol Tymor Byr - o bryd i'w gilydd rydym yn sylweddoli bod sefyllfaoedd yn codi ym mywyd teuluol neu bersonol sy'n ei gwneud hi'n anodd i chi gyflawni ymrwymiad. Rhowch wybod i'r person perthnasol cyn gynted â phosibl, er mwyn iddynt allu eich cefnogi hefyd.
- Mater Bugeiliol tymor hwy - os oes unrhyw fater yn peri ichi fod yn absennol yn anochel am gyfnod hirach o amser, mae'n hanfodol trafod hyn gyda'ch tiwtor.
- Efallai ei bod yn aneglur pwy yw'r person perthnasol, a siarad yn gyffredinol:

- Lleoliad - cytunir presenoldeb ac ymrwymiad gyda'r goruchwyliwr. Ar gyfer mater unigol, mae'n ddigon i roi gwybod i'r goruchwyliwr. Fodd bynnag, os yw'n debygol y bydd patrwm tymor hir yn datblygu, mae'n hanfodol rhoi gwybod i'ch tiwtor.
- Ffuriant Diwinyddol - i'r rhai ar y rhaglen ran amser, disgwylir presenoldeb ym mhob diwrnod seminar a grwpiau lleol. Ar gyfer absenoldebau unigol o'r grŵp wythnosol, cysylltwch â'ch hwylusydd, ond os oes problem gyda phresenoldeb rheolaidd, cysylltwch â'ch tiwtor. Dylid cysylltu â nhw am unrhyw absenoldebau o ddyddiau Seminar. Yn y rhaglen amser llawn, ar gyfer unrhyw absenoldebau o sesiwn modiwl, cysylltwch â thiwtor y modiwl allan o gwarteisi a'r Deon / Cyfarwyddwr Ffuriant.
- Celloedd ffurfiannol - cysylltwch â'ch arweinydd i egluro pob absenoldeb.
- Cyfnodau preswyl (penwythnos neu ysgol haf) - llenwch y ffurflen yn y polisi hwn i'r Deon gan gopïo'ch tiwtor.

Beth yw goblygiadau colli unrhyw agwedd ar y cwrs?

- Byddwn yn recordio absenoldebau. Mae hyn er mwyn gallu cyflawni ein hymrwymiad i'r eglwys i ddarparu hyfforddiant trylwyr ac ysbrydoledig i weinidogion y dyfodol, ac i nodi patrymau a lle mae ymgeisydd yn colli agwedd hanfodol ar ffurfio. Bydd patrwm rheolaidd o absenoldebau, yn enwedig y rhai sydd heb awdurdod, yn cael eu nodi yn yr adroddiad i'r esgob a'i nodi yn y cyfarfod bob chwe mis gyda phob esgob.

Gallai fod yn ddefnyddiol gweld polisïau'r Eglwys yng Nghymru, i gael arweiniad yn y dyfodol:

<https://cym.eglwysyngnghymru.org.uk/adnoddau-2/cyfansoddiad-a-llawlyfrau/llawlyfr-clerigion/>

<https://cym.eglwysyngnghymru.org.uk/adnoddau-2/cyfansoddiad-a-llawlyfrau/llawlyfr-clerigion/gweithdrefnau-adran-3/salwch-ac-analluogrwydd-clerigion/>

Beth yw absenoldebau awdurdodedig a diawdurdod?

Mae yna resymau derbynol gan y gweithle a sefydliadau academaidd dros absenoldebau fel salwch a materion bugeiliol tymor hir. Byddem yn dilyn yr un confensiynau ar gyfer absenoldebau ym mhob agwedd o'r hyfforddiant.

Bydd cyrraedd yn sylweddol hwyr neu adael yn sylweddol gynnar o gyfnod preswyl hefyd yn cael ei gysidro fel absenoldeb, yn ogystal â pheidio â mynychu sesiynau.

Proffesiynoldeb, cwrteisi ac ymddiriedaeth

Agwedd bwysig ar arweinyddiaeth yw adeiladu ymddiriedaeth yn y rhai yr ydym yn eu harwain, ar disgwyliad y gellir ymddiried ynom i gyflawni ymrwymadau ac i ymroi yn llawn â'n gweinidogaethau yn y dyfodol. Felly, mae adeiladu ymarferion da yn ystod hyfforddiant yn bwysig. Mae hefyd yn bwysig galluogi'r rhai rydych chi'n gweithio gyda nhw ar hyn o bryd i weld eich bod chi'n newid rôl ac yn symud i faes gweinidogaeth wahanol. Weithiau bydd hyn yn golygu gollwng gafael ar ymrwymadau a oedd gennych cyn i chi ddechrau hyfforddi ac os oes angen cefnogaeth bellach arnoch, rhowch wybod i ni. Ein hymrwymiad i chi yw ein bod am weld pob un ohonoch yn ffynnu yn ystod eich cyfnod ffurfio a rhan o'r ymrwymiad

hwn yw adeiladu diwylliant o broffesiynoldeb, cwrteisi a dibynadwyedd o fewn y cwrs ac wrth inni ddelio â'n gilydd.

Ffurflen absenoldeb o gyfnod preswyl

Enw

Esgobaeth

Dyddiad y cyfnod preswyl

Hoffwn wneud cais am ganiatâd i fod yn absennol o'r cyfnod preswyl uchod ar sail:

- a. Salwch
- b. Mater bugeiliol byrdymor
- c. Mater bugeiliol hirdymor
- d. Rhesymau personol eraill (e.e. mae'r cyfnod preswyl yn gwrthdaro a digwyddiad teluol arwyddocaol, pen-blwydd priodas aur etc)

Rwy'n awdurdodi'r absenoddeb hwn
Llofnod

Deon

dyddiad:

Cyfrinachedd o fewn Ffuriant ar gyfer Gweinidogaeth Drwyddedig a Diwinyddiaeth ar Gyfer Bywyd

Dylid darllen y polisi hwn yng ngoleuni polisiau eraill o fewn St Padarn's e.e. preifatrwydd, diogelu data a diogelu.

Ffuriant ar gyfer Gweinidogaeth Drwyddedig

Yn St Padarn's, rydym yn gweithredu cyfrinachedd corfforaethol o fewn hyfforddiant gweinidogol. Rydym yn parchu urddas yr ymgeisydd ac eisiau gweld pob ymgeisydd yn ffynnu ac yn tyfu i fod yn berson â'r gweinidog mae Duw yn galw arny'n nhw i fod.

Mae rôl tiwtor yn un gymhleth. Mae gan diwtoriaid gyfrifoldeb bugeiliol yn ogystal â chyfrifoldeb i'r Eglwys yng Nghymru i helpu ymgeiswyr ar eu taith ffurfiannol, perthynas sy'n cynnwys her yn ogystal â gofal bugeiliol. Byddem yn annog ymgeiswyr i fod yn agored ac yn onest gyda'r tiwtoriaid, yn enwedig eu tiwtor Ffurfiannol. Rôl y tiwtor hwnnw yw cydgerdded gyda'r ymgeisydd ar ei daith / ei thaith, ac i helpu'r ymgeisydd i fynd i'r afael â phob un o'r meini prawf yn eu tro. Lle mae gwaith i'w wneud ar feini prawf penodol, gall tiwtor herio ac annog ymgeisydd ynghylch ffyrdd o ddysgu, datblygu a newid. Cefnogir y tiwtor i wneud hyn gan uwch staff yr Athrofa. Ar yr un pryd, mae Padarn Sant yn gyfrifol am adrodd i esgobion am daith ffurfiannol eu hymgeiswyr a rhannu gyda hwy gryfderau ymgeiswyr ond hefyd wendidau, ac unrhyw bryderon ynghylch addasrwydd ar gyfer gweinidogaeth drwyddedig, neu gefnogaeth benodol y bydd ei hangen ar yr ymgeisydd yn y dyfodol er mwyn cyrraedd eu potensial.

Felly, mae'r berthynas hon rhwng yr ymgeisydd a'r tiwtor (a staff eraill St Padarn's) yn un broffesiynol. Os yw ymgeisydd eisiau siarad yn gwbl gyfrinachol am fater, rydym yn awgrymu eu bod yn siarad â'u cyfarwyddwr ysbrydol neu gaplan dynodedig.

O fewn y tîm tiwtorial, os rhennir rhywbeth gyda thiwtor ffurfiannol neu diwtor arall, gall y wybodaeth hon fod yn rhan o'r siwrnai ffurfiannol yr adroddir arni. Yn yr un modd, mae'n bosib y bydd angen i'r tiwtor rannu gwybodaeth gyda'r rhai sydd â chyfrifoldeb goruchwyllo e.e. Cyfarwyddwr Ffuriant, Deon neu Bennaeth, aelodau Uwch Dîm Arweinyddiaeth St Padarn's ac mewn rhai amgylchiadau gydag esgob.

Fodd bynnag, dim ond i'r graddau y mae'n angenrheidiol i St Padarn's wneud ei waith y bydd unrhyw wybodaeth bersonol a fynegir mewn cyd-destun bugeiliol yn cael ei rhannu; ni fydd byth yn cael ei drafod yn gyffredinol o fewn y tîm cyfan. Ni fydd gwybodaeth bersonol sensitif byth yn cael ei rhannu ag ymgeiswyr eraill, ac eithrio pan fydd yr ymgeisydd wedi rhoi caniatâd clir i rannu gwybodaeth (er enghraifft, pan fydd ymgeisydd eisiau i diwtor adael i aelodau eu grŵp wybod am anhawster personol, er mwyn eu hosgoi gorfod cael yr un sgwrs dro ar ôl tro mewn ymateb i ymholiadau pryderus gan eu cyfeillion).

Mae'r cyfrinachedd corfforaethol hefyd yn ymestyn i bartneriaid eraill sy'n gweithio gyda'r Athrofa ar ffuriant ymgeiswyr e.e. hwyluswyr, arweinwyr celloedd ffurfiannol a goruchwylwyr lleoliadau. Mae'r perthnasoedd hyn eto'n broffesiynol, yn dilyn cytundeb (cyfamod) a

chanllawiau, ac mae ganddynt gyfrifoldeb i gefnodi ac i adrodd ar eich ffurfiant. I gael mwy o wybodaeth am gyfrinachedd o fewn celloedd ffurfiannol, gweler yr adran celloedd ffurfiannol yn y llawlyfr hwn.

Mae cyfrinachedd corfforaethol hefyd yn ymestyn, yn yr un modd ar sail angen wybodaeth, o fewn y tîm Gweithrediadau.

Diwinyddiaeth ar gyfer bywyd

Gellir rhannu wybodaeth sensitif wrth gael cyngor a gwneud cais am amgylchiadau esgusodol (Extenuating circumstances). Yn yr un modd, bydd y wybodaeth hon yn cael ei thrin gyda pharch a sensitifrwydd ar sail angen wybodaeth (need to know basis) o fewn y tîm tiwtorial a gweithrediadau.



--

Ymgeisydd Newydd:	Manylion cyswllt:
Yr Esgobaeth sy'n noddi (a'r AW sy'n eu danfon os yn berthnasol):	Categori / Gweinidogaeth:
Dyddiad trwyddedu / ordeinio:	Nifer o flynyddoedd hyfforddiant:
Tiwtoriaid:	

Hyfforddiant

Modd Hyfforddi:	
Llwybr Dysgu:	Lleoliad â goruchwyliwr:
Unrhyw brofiadau gweinidogaethol ychwanegol:	
Arweinydd Cell Ffurfiannol:	Hwylusydd a grŵp (o syn rhan-amser):

Ffrwd Gweinidogaeth Blwyddyn 1:
Ffrwd Gweinidogaeth Blwyddyn 2:

Ffrwd Gweinidogaeth Blwyddyn 3:

neu llwybr ffrwd (strand pathway)?

Sgiliau a phrofiadau perthnasol hyd yn hyn:

Cynnydd ffurfiannol

Cymwyseddau a nodau ffurfiannol, Cryfderau a chyfleoedd datblygu

- A. Ffydd Gristnogol, traddodiad a bywyd
- B. Cenhadaeth, efengyliaeth a bod yn ddisgybl
- C. Ysbrydolrwydd ac addoli
- D. Perthnasoedd
- E. Personoliaeth a chymeriad
- F. Arwain, cydweithio a chymuned
- G. Galwedigaeth a gweinidogaeth o fewn yr Eglwys yng Nghymru

Absenoldebau

Rhowch fanylion am unrhyw absenoldebau

Absenoldeb na ellir ei osgoi / ohirio

Absenoldebau bydd angen nodi ar yr Adroddiad i'r Esgob:

Bydd angen i unrhyw newidiadau i'r llwybr hyfforddi ymgeiswyr ddigwydd drwy ymgynghori â'r Deon Hyfforddiant Cychwynnol ar gyfer y Weinidogaeth.

Cysylltiadau defnyddiol:

Lyn Davies: 0292 0838079

[**Lyn.davies@stpadarns.ac.uk**](mailto:Lyn.davies@stpadarns.ac.uk)

Y Parch Ddr Manon Ceridwen James: 07776 591 799/ 02920838002 (Mercher-Gwener)

[**manon.c.james@stpadarns.ac.uk**](mailto:manon.c.james@stpadarns.ac.uk)

Y Parch Susan Blagden: 07741 900 360

[**susan.blagden@stpadarns.ac.uk**](mailto:susan.blagden@stpadarns.ac.uk)

Y Parch Helen Rees: 07776 589 732

[**helen.rees2@stpadarns.ac.uk**](mailto:helen.rees2@stpadarns.ac.uk)

Glen Lund: 07391 868 295

[**Glen.lund@stpadarns.ac.uk**](mailto:Glen.lund@stpadarns.ac.uk)

Y Parch John Daniel Laurence: 07552 385 330

[**jd.laurence@stpadarns.ac.uk**](mailto:jd.laurence@stpadarns.ac.uk)

Y Parch Ddr Jordan Hillebert: 02920 838073

[**jordan.hillebert@stpadarns.ac.uk**](mailto:jordan.hillebert@stpadarns.ac.uk)

Y Parch Ddr Mark Griffiths: 02920 838077

[**Mark.griffiths@stpadarns.ac.uk**](mailto:Mark.griffiths@stpadarns.ac.uk)

Helen Shepherd: 01291 672 961

[**Helen.shepherd@stpadarns.ac.uk**](mailto:Helen.shepherd@stpadarns.ac.uk)